# ADRAN 1. PA GAMAU GWEITHREDU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

O dan Gynllun Dychwelyd Ernes (CDE), mae defnyddwyr yn talu ernes ad-daladwy wrth brynu cynhwysydd o fewn y cwmpas, y gallant ei hawlio yn ôl trwy ddychwelyd y cynhwysydd. Amcanion polisi cyffredinol cyflwyno'r cynllun ar gyfer cynwysyddion diod yw cyfrannu at y broses o newid i economi gylchol drwy helpu Cymru i fod yn ddiwastraff a charbon sero net erbyn 2050, gan helpu i ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai newydd a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur. Bydd y cynllun hefyd yn helpu i leihau sbwriel, yn gwella ailgylchu ymhellach, yn annog cynhyrchwyr i ddylunio mwy o gynhyrchion y gellir eu hailgylchu gan ddefnyddio cynnwys wedi'i ailgylchu ac yn bwysig, yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ailddefnyddio fesul cam. Bydd hefyd yn annog newid ymddygiad ymhlith defnyddwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr trwy symud i ailddefnyddio, lleihau gwastraff sy'n mynd i gael ei losgi ac yn gwella effeithlonrwydd adnoddau a gwydnwch y gadwyn cyflenwi. Wrth wneud hynny, bydd y cynllun yn cyflawni'r Nodau Llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Wrth ddatblygu'r cynllun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi cymhwyso egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, i gynnwys:

- <u>Y tymor hir</u>

Bydd y cynllun yn cyfrannu at symud tuag at economi fwy cylchol yng Nghymru, lle y mae gwastraff yn cael ei osgoi a lle y mae adnoddau'n cael eu defnyddio cyn hired â phosibl. Mae hyn yn rhan hanfodol o'r camau hirdymor sydd eu hangen i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur, gan greu cyfleoedd economaidd sylweddol hefyd wrth newid i economi garbon sero net.

- <u>Atal</u>

Mae'r cynllun wedi'i gynllunio i helpu i fynd i'r afael â rhai o achosion sylfaenol yr argyfwng hinsawdd a natur o ran defnydd anghynaliadwy o adnoddau a chymell defnydd effeithiol o adnoddau. Bydd hefyd yn helpu i atal sbwriel a gall gynyddu ansawdd a chyfradd ailgylchu a chefnogi'r gwaith o gyflwyno ailddefnyddio yng Nghymru. Felly, mae'r cynllun yn atal gwastraff trwy ddefnyddio deunyddiau gyhyd â phosibl a'u symud i fyny'r hierarchaeth gwastraff statudol, gan gefnogi ein cynnydd tuag at economi fwy cylchol a darparu manteision i'r economi a swyddi.

- <u>Integreiddio</u>

Mae'r cynllun yn rhan o set ehangach o gamau integredig a nodir yn strategaeth economi gylchol Llywodraeth Cymru, *Mwy nag Ailgylchu,* ac mae'n cyflawni amcanion y rhaglen lywodraethu. Wrth ddatblygu'r cynllun, rhoddwyd ystyriaeth i'r angen am weithredu integredig i sicrhau canlyniadau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yn erbyn y Nodau Llesiant. Mae'r nodau hyn yn cyd-fynd â nodau sefydliadau eraill y sector cyhoeddus a'r sector preifat yng Nghymru, o ran ymateb i'r argyfwng hinsawdd a symud i economi gylchol.

Mae'r cynllun wedi'i ddylunio i gefnogi rhyngweithredu rhwng y cynlluniau ym mhob gwlad a darparu sicrwydd i gynhyrchwyr a manwerthwyr. Bydd y CDE yn adeiladu ar y diwylliant ailgylchu ardderchog yng Nghymru.

- Cydweithio

Wrth ddatblygu'r cynllun cydweithiwyd â phartneriaid allweddol, gan gynnwys cynhyrchwyr diodydd, manwerthwyr, a chyfranogwyr eraill ar draws y gadwyn gwerth pecynnu ac Awdurdodau Lleol Cymru, ochr yn ochr â chydweithio gyda'r llywodraethau eraill yn y DU. Bydd rhoi'r diwygiadau hyn ar waith yn llwyddiannus yn gofyn am gydweithrediad parhaus ar draws y gadwyn becynnu, gan gynnwys gwneuthurwyr deunyddiau pecynnu, cynhyrchwyr nwyddau wedi'u pecynnu, llenwyr deunyddiau pecynnu, manwerthwyr, awdurdodau lleol, ailgylchwyr a chyrff gwaredu, defnyddwyr ac aelodau'r cyhoedd.

- Cynnwys

Yn ogystal â'r gwaith ymgysylltu gweithredol a pharhaus â diwydiant a rhanddeiliaid ehangach, gofynnwyd am farn ar y CDE ar sawl cam trwy ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol. Roedd hyn yn cynnwys fel rhan o'n hymgynghoriad cyhoeddus 2019-20 ar ein strategaeth economi gylchol, Mwy nag Ailgylchu; yr ymgynghoriad ar y cyd ar CDE a gynhaliwyd yn 2019 (gydag 84% o'r ymatebion yn ffafrio egwyddorion y cynllun); ymgynghoriad ar y cyd pellach ar y cynigion manwl ar gyfer CDE yn 2021 (gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu wedi'u teilwra i grwpiau penodol gan gynnwys cynhyrchwyr, manwerthwyr, busnesau ailgylchu a sefydliadau'r trydydd sector); a'r ymgynghoriad CDE yn 2025 a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar gynnwys cynwysyddion diodydd untro ac y gellir eu hailddefnyddio, a gafodd dos 300 o ymatebion.

**Effaith**

Bydd y cynllun yn ein helpu i fod yn ddiwastraff erbyn 2050, yn ein helpu i ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai newydd ac yn cyfrannu at wneud Cymru'n economi gylchol a charbon sero net. Bydd y cynllun hefyd yn helpu i leihau sbwriel, cynyddu cyfraddau ailgylchu ymhellach, annog cynhyrchwyr i ddylunio deunydd mwy ailgylchadwy, cynyddu'r defnydd o gynnwys wedi'i ailgylchu mewn pecynwaith, a chefnogi'r trawsnewid i gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio. Bydd hefyd yn annog newid ymddygiad defnyddwyr, cynhyrchwyr a manwerthwyr trwy symud i ailddefnyddio yn raddol, yn lleihau gwastraff gyda llai yn mynd i safleoedd tirlenwi neu losgi ac yn gwella effeithlonrwydd adnoddau a gwydnwch cadwyni cyflenwi.

Er y bydd y cynllun yn gweld cynnydd cychwynnol ym mhris diodydd yn sgil yr ernes, mae'r gost ychwanegol hon yn ad-daladwy yn llawn pan fydd defnyddwyr yn hawlio eu hernesau yn ôl. Bydd y cynnydd mewn prisiau yn berthnasol i bob defnyddiwr, fodd bynnag, gallai gael mwy o effaith ar bobl ar incwm is sydd â llai o incwm gwario i dalu'r prisiau cychwynnol uwch.

**Costau ac Arbedion**

Disgwylir y costau a'r manteision a ganlyn yn sgil y cynllun arfaethedig dros y cyfnod o 10 mlynedd (rhwng 2026 a 2035) i Gymru:

| | **Opsiwn Dychwelyd 100% i Leoliadau Manwerthu** | **Opsiwn hybrid (digidol / ymyl y ffordd)** |
|---|---|---|
| Gwerth Presennol Net | £424.7 miliwn | £692.7 miliwn |
| Costau Presennol Net | £1,362.2 miliwn | £1,092.7 miliwn |
| Manteision Presennol Net | £1,787 miliwn | £1,785.4 miliwn |
| Cymhareb Cost a Budd | 1.31 | 1.63 |
| | | |

Allyriadau nwyon tŷ gwydr disgwyliedig:

| **Allyriadau nwyon tŷ gwydr – cyfanswm 10 mlynedd** | **Tunelli o CO2e** | |
|---|---|---|
| | **Dychwelyd 100% i Leoliadau Manwerthu** | **Hybrid (digidol / ymyl y ffordd)** |
| Trafnidiaeth | 316,000 | 134,000 |
| Pecynwaith | -171,000 | -171,000 |
| Balans net | 145,000 | -37,000 |

Sylwer: mae rhif positif yn dangos cynnydd, mae rhif negatif yn dangos gostyngiad.

Er mwyn lleihau effaith y cynllun ar fusnesau bach, bydd esemptiadau ar gael i gynhyrchwyr llinellau cynnyrch bach o ran nifer, a fydd yn berthnasol i gynhyrchwyr sy'n rhoi niferoedd bach o gynhyrchion ar y farchnad.  Bydd manwerthwyr bach mewn ardaloedd trefol yn cael eu hesemptio'n awtomatig rhag cynnal mannau dychwelyd. Bydd manwerthwyr hefyd yn gymwys i wneud cais am esemptiad rhag cynnal mannau dychwelyd mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys agosrwydd at fan dychwelyd arall, ac iechyd a diogelwch oherwydd capasiti storio cyfyngedig.

**Mecanwaith**
Mae Offeryn Statudol Cymreig yn cael ei ddefnyddio i wneud rheoliadau ar gyfer y cynllun yng Nghymru. Mae hyn yn adlewyrchu'r dull a ddefnyddiwyd mewn rhannau eraill o'r DU.

# ADRAN 8. CASGLIAD

## 8.1 Sut cafodd y bobl, y mae'r cynnig yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt, eu cynnwys yn y gwaith o'i ddatblygu?

Mae ystod eang o randdeiliaid gan gynnwys cynhyrchwyr, manwerthwyr a sefydliadau anllywodraethol wedi bod yn cymryd rhan weithredol ers camau cynnar datblygu'r cynllun. Gofynnwyd am farn ar yr ymrwymiad i CDE yn ystod ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 2019 a 2020 fel rhan o'n strategaeth economi gylchol ehangach, *Mwy nag Ailgylchu*. Mynegodd ymatebwyr ddiddordeb cryf mewn gweithredu CDE, sy'n cynrychioli math o Gyfrifoldeb Cynhyrchydd Estynedig. Roedd adborth yn cefnogi EPR yn gryf a defnyddio'r egwyddor y llygrydd sy'n talu, gan annog dylunio pecynwaith mwy cyfrifol.

Cynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus ar y cyd â Llywodraeth y DU a Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon yn benodol ar nodau CDE yn 2019, gyda 1,180 o ymatebion unigol yn dod i law a 207,089 o ymatebion i ymgyrchoedd, gydag 84% yn cefnogi egwyddorion y cynllun. Cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar y cyd ar gynigion manwl ar gyfer CDE yn 2021, gan gynnwys digwyddiadau ymgysylltu wedi'u teilwra i gynhyrchwyr, manwerthwyr, busnesau ailgylchu, a sefydliadau'r trydydd sector. O ystyried natur dechnegol CDE a'r gefnogaeth gref a gafwyd eisoes, canolbwyntiodd yr ymgynghoriad hwn ar ymgysylltu â rhanddeiliaid ar draws y gadwyn werth.

Yn 2025, cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau ymgysylltu sector-benodol ynghyd â chynhadledd CDE ar y CDE Gorau i Gymru. Gan adeiladu ar ymgyngoriadau blaenorol, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar gyflwyno ailddefnyddio fesul cam. Mae'r ymatebion a ddaeth i law wedi llywio'n benodol y targedau casglu o fewn y rheoliadau hyn sy'n gymwys i'r DMO. Daeth dros 300 o ymatebion i law ar gyfer yr ymgynghoriad hwn, a lluniwyd fersiwn a oedd yn addas i bobl ifanc i sicrhau hygyrchedd ac annog plant a phobl ifanc i gymryd rhan.

## 8.2 Beth yw'r effeithiau cadarnhaol a negyddol mwyaf arwyddocaol?

Bydd y cynllun yn ein helpu i fod yn ddiwastraff erbyn 2050, yn ein helpu i ddefnyddio llai o ddeunyddiau crai newydd ac yn cyfrannu at wneud Cymru'n economi gylchol a charbon sero net. Wrth wneud hynny, bydd yn adeiladu ar gyfraddau ailgylchu Cymru ar gyfer cynwysyddion diodydd untro wrth gefnogi trawsnewid i ddewisiadau amgen y gellir eu hailddefnyddio. Bydd hyn hefyd yn mynd i'r afael â thaflu cynwysyddion diodydd yn sbwriel, yn gwella ailgylchu tu allan i'r cartref, ac yn sicrhau bod llygrwyr yn talu am effaith amgylcheddol eu cynhyrchion - gan greu system decach sy'n cymell gwell dylunio ac arloesi o ran pecynwaith.

Bydd y cynllun hefyd yn cynyddu cyfraddau ailgylchu ymhellach ac yn gwella ansawdd y deunyddiau a gasglwyd, gan ddarparu deunydd crai o ansawdd uchel i weithgynhyrchwyr Cymru a chryfhau gwydnwch y gadwyn gyflenwi. Trwy gefnogi'r broses o drawsnewid i gynhyrchion y gellir eu hailddefnyddio, bydd y CDE yn cefnogi'r trawsnewidiad i allyriadau sero net i'r sector ac yn cefnogi arloesedd yn y diwydiant diodydd. Bydd hefyd yn cefnogi newid ymddygiad ymhlith defnyddwyr ac yn cefnogi datblygiad y farchnad ar gyfer ailddefnyddio ac arferion defnydd cynaliadwy.

Trwy gynyddu ailgylchu ymhellach a chyflwyno cynwysyddion y gellir eu hailddefnyddio, bydd y CDE yn darparu manteision amgylcheddol a chymdeithasol sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys lleihau'r ddibyniaeth ar ddeunyddiau crai, a thrwy hynny leihau'r effeithiau amgylcheddol sy'n gysylltiedig â'u hechdynnu, gan gynnwys datgoedwigo a'r effaith gysylltiedig ar fioamrywiaeth. Bydd y symudiad i ailddefnyddio yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr sy'n gysylltiedig ag yfed diodydd, ac, yn ei dro, yn cyfrannu at y broses o drawsnewid Cymru i garbon sero net, gan adeiladu ar hanes Cymru fel arweinydd rhyngwladol yn yr economi gylchol. Bydd y cynllun hefyd yn creu cyfleoedd swyddi gwyrdd ym maes logisteg a'r symud i ailddefnyddio a bydd hefyd yn cynnig cyfle i godi arian cymunedol trwy roddion ernes.

Mae dadansoddiad annibynnol yn awgrymu y gallai'r newid i economi gylchol arbed hyd at £3.8 biliwn i economi Cymru, gan greu swyddi gwyrdd o ansawdd uchel, meithrin arloesedd, a chryfhau gwydnwch mewn sectorau allweddol fel logisteg a gweithgynhyrchu. Mae ymchwil gan Go Unpackaged yn dangos y gallai ehangu ailddefnyddio ar draws cynhyrchion nwyddau groser greu hyd at 13,000 o swyddi newydd, arbed £314m–£577m y flwyddyn mewn costau system, a lleihau costau pEPR £136m bob blwyddyn. Bydd busnesau hefyd yn elwa ar fynediad at ddeunyddiau wedi’u hailgylchu o ansawdd uchel, cadwyni cyflenwi mwy gwydn, a defnydd mwy effeithlon o adnoddau, gyda chynwysyddion sydd wedi'u cynllunio i'w hailddefnyddio a chylchoedd cynhyrchu dolen gaeedig.

Ar gyfer dinasyddion, bydd y cynllun yn cynyddu prisiau diodydd ymlaen llaw oherwydd ernesau, sy'n ad-daladwy ar ôl eu dychwelyd. Er y gall hyn effeithio'n anghymesur ar y rhai ar incwm is, mae'r manteision hirdymor yn cynnwys cymunedau glanach, llai o sbwriel, a gwell canlyniadau amgylcheddol. Mae Dadansoddiad Llywodraeth Cymru o Nodweddion Gwarchodedig yn ôl Amddifadedd Ardal (2017–2019) yn dangos bod rhai grwpiau - megis menywod, pobl ifanc, cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, pobl anabl, unigolion LHDTC+, a phobl o ffydd Fwslimaidd - yn fwy tebygol o fyw mewn ardaloedd difreintiedig ac felly gallant gael eu heffeithio'n fwy gan yr ernes yn cael ei ychwanegu at y gost gychwynnol.  Fodd bynnag, dylai natur ad-daladwy ernesau liniaru'r effaith hon.

Bydd yn ofynnol i fusnesau gymryd rhan yn y cynllun, gyda chynhyrchwyr diodydd yn talu ffioedd cofrestru i'r Sefydliad Rheoli Ernes (DMO). Bydd cynhyrchwyr hefyd yn gweld costau sy'n gysylltiedig â newidiadau fel labelu cynnyrch, tra bydd manwerthwyr yn ysgwyddo costau ar gyfer cynnal mannau dychwelyd, prynu peiriannau rhoi arian am ailgylchu, a'r angen am ofod llawr a storio. Mae'r newidiadau hyn hefyd yn cynnig cyfleoedd i fusnesau ysgogi nifer yr ymwelwyr, cryfhau gwaith ymgysylltu â chwsmeriaid, a dangos tystiolaeth eu bod yn cyflawni yn erbyn nodau cynaliadwyedd.

Ar hyn o bryd mae awdurdodau lleol yn ennill incwm o werthu deunydd wedi'i ailgylchu a gasglwyd trwy ailgylchu wrth ymyl y ffordd, gan gynnwys cynwysyddion diodydd. O dan

CDE, bydd yr incwm hwn yn lleihau, ond bydd arbedion yn deillio o lai o gostau didoli a gwaredu, yn enwedig pan fydd cynwysyddion yn cael eu tynnu o ffrydiau gwastraff cymysg.

Bydd awdurdodau lleol a Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yn ymgymryd â rolau newydd wrth fonitro a gorfodi'r cynllun, gyda chymorth cyllid gan y DMO i dalu costau gorfodi. Bydd Safonau Masnach yn cadw ffioedd cosb o sancsiynau sifil. Gall cyrff cyhoeddus eraill hefyd chwarae rôl, er enghraifft, wrth gyflwyno ymgyrchoedd gwrth-sbwriel a helpu i godi ymwybyddiaeth a chefnogaeth y cyhoedd i'r cynllun.

**8.3 Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut y bydd y cynnig:**
- **yn sicrhau'r cyfraniad mwyaf posibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a / neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau, neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Bydd CDE yn cefnogi'r Nodau Llesiant fel a ganlyn:

**Cymru Lewyrchus**
Bydd y CDE yn cyflymu'r broses o newid Cymru i economi gylchol, garbon isel drwy wella effeithlonrwydd adnoddau, adeiladu ar y cyfraddau ailgylchu cyfredol, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a chefnogi'r trawsnewidiad i ailddefnyddio. Trwy barhau i ddefnyddio deunyddiau gwerthfawr, bydd y cynllun yn lleihau gwastraff ac yn ysgogi buddsoddiad mewn seilwaith casglu ac ailbrosesu, gan greu cyfleoedd economaidd a swyddi gwyrdd.

**Cymru Gydnerth**
Trwy leihau'r angen am ddeunyddiau crai newydd, y mae eu hechdynnu yn un o achosion sylfaenol yr argyfwng bioamrywiaeth byd-eang, bydd y CDE yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu ar yr argyfwng natur. Drwy leihau gwastraff bydd y cynllun yn lleihau'r hyn sy'n mynd i safleoedd tirlenwi a llosgi, a thrwy leihau sbwriel, bydd hefyd yn atal deunyddiau rhag llygru amgylchedd naturiol Cymru ac effeithio ar ein bioamrywiaeth. Trwy wella argaeledd domestig deunydd wedi'i ailgylchu o ansawdd uchel, bydd hefyd yn gwella gwydnwch y gadwyn gyflenwi.

**Cymru Iachach**
Mae strydoedd glanach a mannau cyhoeddus yn lleihau'r aflwydd gweledol a'r annymunoldeb a achosir gan sbwriel, gan gefnogi llesiant meddyliol. Yn ogystal, gallai'r cynllun helpu i leihau'r defnydd o ddiodydd llawn siwgr, gan gyfrannu at fynd i'r afael â gordewdra a gwell iechyd deintyddol.

**Cymru o Gymunedau Cydlynus**
Mae'r cynllun yn gwneud cymunedau yn fwy atyniadol ac yn llefydd gwell i fyw ynddynt trwy fynd i'r afael â thaflu sbwriel a'i effeithiau negyddol. Mae hyn yn meithrin balchder mewn ardaloedd lleol ac yn cryfhau cydlyniant cymunedol. Bydd cymunedau hefyd yn elwa ar bobl yn gallu rhoi eu hernesau i elusennau.

**Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**
Mae Cymru eisoes yn cael ei chydnabod fel arweinydd byd-eang ym maes ailgylchu. Bydd CDE yn adeiladu ar y llwyddiant hwn, gan helpu i wella cyfraddau ailgylchu ymhellach ac, yn hanfodol, yn cyflwyno ailddefnyddio fesul cam. Yn y modd hwn, gall gefnogi'r broses o ymgorffori ailddefnyddio fel rhan graidd o ddiwylliant Cymru — gan ddilyn y ffordd y mae ailgylchu wedi dod yn rhan o hunaniaeth Cymru.

**Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**
Trwy leihau dibyniaeth ar ddeunyddiau craidd wedi'u mewnforio ac effaith echdynnu ar fioamrywiaeth, mae'r CDE yn cyfrannu'n uniongyrchol at weithredu ar yr argyfwng hinsawdd a natur. Mae hyn yn cynnwys lleihau'r angen am arferion niweidiol fel mwyngloddio, tra bod cynyddu ailgylchu hefyd yn lleihau'r deunydd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi, llosgi neu allforio gwastraff.

**Cymru sy'n fwy cyfartal**
Mae sbwriel yn effeithio'n anghymesur ar gymunedau sydd â lefelau amddifadedd uwch. Trwy leihau sbwriel a'i annymunoldeb cysylltiedig, mae'r CDE yn helpu i greu amgylcheddau tecach, glanach i bawb. Mae'r cynllun hefyd yn grymuso unigolion i gyfrannu at y canlyniadau hyn trwy ddychwelyd cynwysyddion a hawlio ernesau yn ôl.

Fodd bynnag, gallai defnyddwyr osgoi'r gost ychwanegol ymlaen llaw (sy'n ad-daladwy) trwy brynu llai o ddiodydd yn y cwmpas a newid i ddewisiadau amgen. Bydd pobl yn gallu dychwelyd cynwysyddion i unrhyw fan dychwelyd, nid dim ond i'r lle y gwnaethant brynu'r cynhwysydd, a thrwy hynny sicrhau bod opsiwn cyfleus. Bydd disgwyl i'r DMO sy'n rhedeg y cynllun sicrhau bod rhwydwaith mannau dychwelyd helaeth ar draws ardaloedd trefol a gwledig.

Bydd y cynllun yn cynnwys y canlynol i sicrhau bod dychwelyd cynwysyddion mor hawdd â phosibl:

- Bydd pobl hefyd yn gallu dychwelyd cynwysyddion i unrhyw fan dychwelyd y cynllun, nid dim ond i'r lle y gwnaethant brynu'r cynhwysydd oddi wrtho.
- Bydd disgwyl i'r DMO sicrhau hygyrchedd y cynllun trwy reoli'r esemptiadau rhag cynnal mannau dychwelyd, manylebau Peiriannau Rhoi Arian am Ailgylchu (RVMs), eu lleoliadau a sicrhau bod y peiriannau yn hygyrch i bawb. Wrth greu'r fanyleb ar gyfer RVMs, bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl i'r DMO ystyried defnyddioldeb y peiriannau (e.e. uchder y seilwaith) ar gyfer pob dinesydd.
- Bydd rhwydwaith helaeth o fannau dychwelyd ar draws ardaloedd trefol a gwledig. Bydd angen ystyried ffactorau fel daearyddiaeth leol a chyfansoddiad demograffig ardal – gan gynnwys posibiliadau ar gyfer sefydlu mannau dychwelyd mewn ardaloedd â llawer o ymwelwyr (e.e. canolfannau siopa a chanolfannau trafnidiaeth). Bydd angen i'r DMO hefyd adolygu gweithrediad mannau dychwelyd a gwneud addasiadau fel y bo'n briodol, gan gynnwys gweithredu rhai mannau dychwelyd ei hun.
- Bydd manwerthwyr sy'n gwerthu cynwysyddion o fewn y cwmpas o dan rwymedigaeth i gynnal man dychwelyd oni bai eu bod yn gofyn am esemptiad ac yn ei gael. Bydd manwerthwyr bach mewn ardaloedd trefol yn cael eu hesemptio'n awtomatig rhag cynnal mannau dychwelyd. Cyn rhoi unrhyw esemptiadau, bydd yn ofynnol i'r DMO ystyried unrhyw faterion hygyrchedd. Bydd yn ofynnol i'r manwerthwr sydd wedi'i

esemptio arddangos arwyddion sy'n nodi'r esemptiad, ynghyd â gwybodaeth am leoliad y man dychwelyd agosaf.

- Disgwylir i'r DMO gyhoeddi manyleb RVM gan ystyried materion hygyrchedd – gan gynnwys, er enghraifft, defnyddwyr cadair olwyn.
- Disgwylir i gyfarwyddiadau ar gyfer defnyddio RVMs a mannau dychwelyd fod yn hawdd eu defnyddio ac mewn iaith glir a syml.

**8.4 Sut y bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth iddo fynd rhagddo ac ar ôl iddo gael ei gwblhau?**

Mae'r ddeddfwriaeth ar gyfer y cynllun yn cyflwyno gofynion casglu ac adrodd data, a fydd yn ei dro yn galluogi monitro a gwerthuso'r cynllun ehangach.

Bydd y DMO yn chwarae rôl ganolog yn y gwaith parhaus o werthuso'r Cynllun Dychwelyd Ernes yn erbyn amcanion y cytunwyd arnynt. Bydd targedau ailgylchu statudol yn cael eu hymgorffori yn y cynllun a bydd cynnydd yn cael ei fonitro gan Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) fel y rheoleiddiwr. Hefyd, bydd CNC yn goruchwylio cydymffurfiaeth y DMO â'i rwymedigaethau statudol a'i safonau gweithredol, gan sicrhau bod y cynllun yn cyflawni ei fanteision amgylcheddol a chymdeithasol arfaethedig yn effeithiol ac yn dryloyw.

Bydd timau gwasanaethau safonau masnach awdurdodau lleol hefyd yn cael rôl allweddol wrth fonitro perfformiad a chydymffurfiaeth busnesau â'u rhwymedigaethau statudol a chynnal hyder yn y cynllun.

Mae hyn yn cynnwys cydweithio i ddarparu cymorth i fusnesau, gan hefyd ymateb i gwynion, a chymryd camau priodol lle bo angen i ddiogelu defnyddwyr.

Fel rhan o'r broses ar gyfer penodi'r DMO, bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth gadarn o ran sut y bydd canlyniadau lleihau sbwriel yn cael eu cyflawni o ganlyniad uniongyrchol i'r CDE, gan gynnwys trwy fecanweithiau monitro, adrodd a gwerthuso.

Bydd yn ofynnol i'r DMO gyflwyno adroddiad blynyddol i Weinidogion Cymru a CNC ar gyfer pob blwyddyn o'r cynllun. Rhaid i'r adroddiad blynyddol nodi sut, ac i ba raddau, y mae'r sefydliad rheoli ernes wedi gweithredu yn ystod y flwyddyn gynllun berthnasol yn unol â'i gynllun gweithredol. Bydd Llywodraeth Cymru yn adolygu'r adroddiadau blynyddol i lywio unrhyw benderfyniadau ynghylch mireinio'r cynllun.

# ADRAN 9. DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf wedi fy modloni bod effaith y cam gweithredu arfaethedig wedi cael ei hasesu a'i chofnodi'n ddigonol.

Enw'r Uwch-swyddog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr:

Adran:

Dyddiad: